Cyngor Cymuned Llanbadrig Community Council

Cofnodion o gyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd nos Lun 20/2/2017
Minutes of the Full Council meeting held on Monday evening 20/2/2017

Presennol / Present: Derek Owen (Cadeirydd/Chair), Jack Longman, Gareth Jones, Elfed Jones, Tony Hughes, Dave Livingstone, Carys Davies

Cynghorwyr Sirol / County Councillors: Cyng/Cllr Aled Morris Jones, Cyng/Cllr Wil Hughes,

Yn Bresennol / In Attendance: Carli Evans-Thau (Clerc/Clerk), Eira Parry (Cyfieithu/Translation), Gareth Winston Roberts OBE (Partneriaeth Cynghorau Gogledd Mon / North Anglesey Councils Partnership), Aelodau'r cyhoedd / Members of the public

Ymddiheuriadau / Apologies: Brian Potter, Cyng/Cllr Richard Jones, Richard Foxhall (Horizon),

1 Croeso / *Welcome*

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Derek Owen ac fe groesawyd pawb yn bresennol.
The meeting was chaired by Derek Owen and all present were welcomed.

2 Datgan Diddordeb / *Declaration of Interest*

Cyng/Cllr Wil Hughes – Cynllunio / *Planning*
Jack Longman – Rheolaeth yr Harbwr / *Harbour Management*
Elfed Jones - Rheolaeth yr Harbwr / *Harbour Management*
Dave Livingstone - Rheolaeth yr Harbwr / *Harbour Management*

10 Wylfa Newydd

Croesawyd Gareth Winston Roberts OBE i'r cyfarfod. Cafwyd grynodeb o'r cyfarfod gyda Duncan Hawthorne prif weithredwr newydd Horizon. Nodwyd ei bod yn awyddus trafod ymhellach a chydweithio gyda'r cymunedau hynnu sydd agosaf at y datbglygiad.

Nodwyd bod adroddiad ar ddarganfyddiadau PAC2 i'w ddisgwyl ddiwedd Chwefror gyda ymgynghoriad eto (PAC3) i ddod yn yr wythnosau nesaf. Cydnabyddwyd bydd peth gwaith gweinyddol ychwanegol a bod Cyngor Tref Amlwch wedi cytuno ar 4 awr ychwanegol i'r clerc i drafod materion perthnasol. Gofynnwyd a fyddai Llanbadrig yn ystyried gwneud yr un peth. Cytuno bod datblygiad Wylfa Newydd yn bwysig iawn i'r ardal ac am gael effaith ar y gymuned. Cytuno yn unfrydol ar oriau ychwanegol i'r clerc. Mae oriau ychwnaegol wedi'w drafod yn y gorffennol ond heb eu gweithredu.

Nodwyd bydd cyfarfod o'r Bartneriaeth yn fuan ac fe ofynnwyd pa faterion y dylid eu trafod ymhellach. Cytuno bod y prif faterion yn parhau sef y on tuag at Amlwch, safle'r gwersyll dros dro, gwaith i bobl lleol, tai cymdeithasol.

Nodwyd siom yn agwedd y Cyngor Sir tuag at Horizon a datblygiad Wylfa Newydd. Er bod cyfle i drafod wedi bod dros y tair mlynedd diwethaf teimlwyd nad oedd y Cyngor Sir yn gwneud y gorau i'r gymuned. Cytuno ei fod yn hanfodol bwysig bod y cynghorau cymuned yn cydweithio er budd eu cymunedau a thrigolion yr ardal. Cytuno yn unfrydol bod y Bartneriaeth yn parhau gynnal trafodaethau gyda datblygwyr Wylfa Newydd.

Gareth Winston Roberts OBE was welcomed to the meeting. A summary was given of the meeting with Duncan Hawthorne, Horizon's new Chief Executive. It was noted that he was eager for further discussions and to work in partnership with those communities nearest the development.

It was noted that a report on the findings of PAC2 is expected at the end of February with further consultation (PAC3) to come in the next few weeks. It was acknowledged that there will be additional administrative work and Amlwch Town Council have agreed to 4 additional hours for the clerk to address relevant matters. It was asked whether Llanbadrig would consider doing the same. Agreed that Wylfa Newydd is very important to the area and will have a great impact on the community. Unanimously agreed for additional hours for the clerk. Additional hours have

already been discussed but no action taken.

It was noted that a Partnership meeting is to take place soon and it was asked what matters should be discussed further. Agreed that the same matters remain of concern i.e. the road towards Amlwch, site of temporary worker's accommodation, work for local peoples and social housing.

Disappointment was noted regarding IACC's attitude towards the Wylfa Newydd development. Although the opportunity for discussion has been available over the last three years, it was felt that the County Council were not doing the best for the community. Agreed that it was essential for the community councils to work in partnership for the benefit of their communities and local residents. Unanimously agreed that the Partnership continue to hold talks with the developers of Wylfa Newydd.

3 Cofnodion Cyfarfod Diwethaf / *Minutes of the Last Meeting*

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir. Cynigwyd gan Carys Davies eiliwyd gan Jack Longman.
The minutes were confirmed correct. Proposed by Carys Davies, seconded by Jack Longman.

4 Materion yn codi o'r cofnodion / *Matters arising from the minutes*

4.1 Glendid y Traeth / *Cleanliness of the Beach*

Cafwyd ddiweddariad gan Derek Owen bod yr asiantaethau statudol yn parhau i weithio gyda'u gilydd i geisio a darganfod achos y llygru a chymryd camau i'w gywiro. Nodwyd bod cyfarfod o'r asiantaethau i'w gymryd lle 21/2/2017 ac eto ddiwedd Mawrth cyn cyfarfod cyhoeddus er mwyn diweddaru'r gymuned.

Trafodwyd y posibilrwydd o wahodd y gweinidog twristiaeth i'r ardal i gael gweld y gymuned dros ei hun. Mae posibilrwydd hefyd gwahodd aelod o'r teulu brenhinol i godi proffil yr ardal.

Cafwyd ddiweddariad a trosolwg gan Carys Davies o'r y cais am grant twristiaeth. Diolchwyd i Elfed Jones am arwain ar y cais hyd yma, ac i Gwmni Cemaes am gymryd yr awennau o hyn allan. Diolchwyd hefyd i swyddogion y Cyngor Sir am eu cefnogaeth i lenwi'r ffurflen a datblygu'r prosiect. Nodwyd bod Cwmni Cemaes yn gobeithio ail-lansio'r Grwp Masnach a Thwristiaeth yn yr ardal gyda'r cyfarfod cyntaf yn cymryd lle nos Wener 24/2/2017.

Derek Owen gave an update that the statutory organisations continue to work together to find the cause of the pollution and take steps to correct it. It was noted that a meeting of all agencies was to take place 21/2/2019 and again at the end of March before a public meeting to update the community.

The possibility pf inviting the tourism minister to the area to see the community for himself was discusses. There is also the possibility of inviting a member of the royal family to raise the profile of the area.

Carys Davies gave an overview and update of the application for the tourism grant. Elfed Jones was thanked for leading on the project so far and to Cwmni Cemaes for taking the reins from now on. County Council officers were also thanked for their efforts and support to complete the application and develop the project. It was noted that Cwmni Cemaes were hoping to re-launch the Trade and Tourism Group with the first meeting being held Friday 24/2/2017.

4.2 Cofeb / *Memorial*

Mae Mr Eric Torr yn parhau mewn trafodaethau gyda CADW a'r British Legion er mwyn sicrhau grantiau tuag at adnewyddu'r gofeb. Mae posibilrwydd hefyd o sicrhau peth arian o gronfa Magnox.

Mr Eric Torr continues in talks with CADW and the British Legion to secure funding towards restoring the memorial. There is a possibility of some funding also from the Magnox fund.

4.3 10-12 Stryd Fawr / 10-12 High Street

Nodwyd bod Derek Owen a'r clerc yn cwrdd a Menter y Pentref 21/2/2017 i drafod pa

agweddau o'r gwaith adnewyddu fyddent yn eu cynnwys yn eu ceisiadau grant. Bydd angen cytundeb/les arnynt er mwyn gallu ceisio am arian. Roedd y Pwyllgor Cyllid yn argymell bod y Cyngor yn cynnig cytundeb 3 mlynedd iddynt ac yn cadw'r rhent yn gyson ar £600 y mis. Ni fyddai tal yn ddyledus tra bod y siop yn wag ar gyfer y gwaith trin. Cyngor llawn yn cytuno ac yn derbyn yr argymhelliant.

Cytuno bod angen dechrau ar y gwaith i'r fflat cyn gynted a phosib a byddai yn cael ei osod drwy asiant e.e. Mon Properties.

It was noted that Derek Owen and the clerk would be meeting with Village Venture 21/2/2017 to discuss what aspects of the work were to be included in their funding applications. They will require a lease/agreement to apply for funding. Finance committee recommended that the Council offer a three-year agreement and to keep the rent at £600 per month. No payment would be due when the shop is empty for refurbishment work. Full Council agreed and endorsed the recommendation.

Agreed that the work to the flat be completed as soon as possible and that it would be let via an agent e.g. Mon Properties.

4.4 Ffermydd y Cyngor / *Council Smallholdings*

Cafwyd ebost gan Dr Gwynne Jones mewn ymateb i'r aelodau yn datgan eu siom bod CSYM wedi cytuno gwethu mwy o'i ffermydd. Cafwyd addewid gan Cyng Aled Jones a Cyng Wil Hughes y byddent yn ceisio newid polisi'r Cyngor petaent yn llwyddianus yn yr etholiad.

An email was received from Dr Gwynn Jones in response to the members noting thir disappointment that IACC were selling more smallholdings. Cllr Aled Jones and Cllr Wil Hughes gave their word that they would try to change the Council's policy should they be successful in the election.

5 <u>Adroddiad Pwyllgor Cyllid / *Finance Committee Report*</u>

Cafwyd grynodeb o'r cyfarfod gan Tony Hughes. Mae'r rhan fwyaf o faterion eisioes wedi eu trafod ar yr agenda. Nodwyd bod y pwyllgor wedi penodi cadeirydd newydd wedi ymddiswyddiad Julia Dobson. Mae Tony Hughes yn ol yn y gadair gyda Carys Davies yn is-gadeirydd.

Nodwyd bydd Tony Hughes a Derek Owen yn cydweithio ar gytundeb cyflogaeth y clerc yn unol a'r telerau cyflogaeth presennol. Pawb yn hapus.

Mae trefniadau yn ei le ar gyfer bancio ar y we gan fod banc HSBC wedi cau yn Amlwch. Bydd hefyd posib tau arian i fewn yn swyddfa'r post gyda cerdyn debyd. Nodwyd bod Pwyllgor Safonnau'r CSYM wedi cynnal archwiliad gydag adroddiad bositif a diolchwyd i'r clerc am ei gwaith.

Penodwyd John Roberts i archwilio cyfrifon y Cyngor eto eleni. Pawb yn hapus. Nodwyd bod yr yswiriant angen ei adnewyddu ddiwedd Mawrth a bod gwath i ddiweddaru'r gofrestr asedau eisioes ar y gweill.

Nodwyd bod cyfarfod wedi ei gynnal gyda swyddogion Menter Mon ynglyn a prosiect 'Oakfield Stores' ond nad oedd diweddariad wedi'r cyfarfod hwnw. Roedd Cyng Aled Jones yn siomedig iawn nad oedd Menter Mon wedi anfon y wybodaeth ymlaen i'r clerc fel addewid yn y cyfarfod. Cytuno gyda amseru presennol bod angen datblygu'r cynllun busnes a sicrhau arian cyn gofyn i'r gymuned pa ddefnydd y byddent yn hoffi ei weld o'r adeilad.

Tony Hughes gave a summary of the meeting. Most issues discussed have already been discussed on the main agenda. It was noted that the committee has appointed a new chair following the resignation of Julia Dobson. Tony Hughes is back in the chair with Carys Davies vice chair.

It was noted that Tony Hughes and Derek Owen will work together on the clerk's contract of

employment in line with current employment terms. All happy.

Arrangements are in place for online banking now that the HSBC branch in Amlwch has closed. It will also be possible to pay monies in at the post office with a debit card. It was noted that the IACC Standards Committee had recently undertaken an audit with positive results and the clerk was thanked for her work.

John Roberts was appointed to audit the Council's accounts again this year. All in agreement. It was noted that the insurance was to be renewed at the end of March and work to update the asset register is already in hand.

It was noted that a meeting had been held with Menter Mon regarding the 'Oakfield Stores' project but there was no update following that meeting. Cllr Aled Jones was very disappointed that Menter Mon had not forwarded the information to the Clerk as promised at the meeting. Agreed with current timings that there is a need to develop a business plan and secure funding before asking the community what use they would like to have from the building.

6 Cynllunio / *Planning*

6.1 Ceisiadau / *Applications*

Cyflwynwyd dau gais i'w ystyried: / *Two planning applications were presented for discussion* –

1) 20C234A 31 Gwelfor – dim gwrthwynebiad / no objection
2) Vodafone – dim gwrthwynebiad / no objection

6.2 Penderfyniadau / D*ecisions*

Cafwyd wybod am y penderfyniadau canlynol / *Members were notified of the following decisions:*

- 20C321 Cemaes Fawr – dim angen caniatad / *approval not required*
- 20C322 Jolly Sailor – caniatad / *approval*

7 Rheolaeth yr Harbwr / *Harbour Management*

Cynhaliwyd cyfarfod gyda cynrychiolwyr Tim Rheoli'r Harbwr er mwyn dod i gyfaddawd ar sut byddai orau i reoli a diogelu'r Harbwr ar gyfer y gymuned. Darllennwyd argymhellion y cyfarfod hwnw i bawb oedd yn bresennol. Mae Tim Rheoli'r Harbwr wedi cael cyfle i drafod yr argymhellion hynnu yn eu cyfarfod diwethaf.

Cytuno bydd Tim Rheoli'r Harbwr yn ffurfio is-bwyllgor swyddogol o'r Cyngor Cymuned. Bydd arian yr Harbwr yn parhau i fod wedi ei glustnodi ar gyfer yr Harbwr ac yn cael ei gadw mewn Cyfrif arwahan i arian y Cyngor. Ni fyddai angen trwydded i reoli'r Harbwr os yn is-bwyllgor swyddogol o'r Cyngor. Bydd gwirfoddolwyr y Tim Rheoli yn cael ei diogelu gan yswiriant y Cyngor.

Cytuno bydd angen datblygu siarter / cyfansoddiad ar gyfer yr is-bwyllgor gan gynnwys yr hawl i gyfethol aelodau o'r gymuned sydd gyda'r sgiliau a'r profiad sydd ei angen i reoli ased o'r fath.

Cadarnhawyd bod Tim Rheoli'r Harbwr yn fodlon a'r cynnig. Roedd pawb yn bresennol yn fodlon derbyn y cynnig a symud ymlaen er budd y gymuned.

A meeting with representatives of the Harbour Management Team was held to come to a compromise as to how best to manage and safeguard the harbour for the community. The recommendations of that meeting were read out to all present. The Harbour Management Team have had an opportunity to discuss the recommendations at the ir last meeting.

Agreed that the HMT form an official sub-committee of the Community Council. The harbours funds will remain earmarked for the harbour and kept in a bank account separate to the Council's funds. There will be no need for a licence to manage the harbour if an official sub-committee of the council. HMT volunteers will be safeguarded by the Council's insurance policy.

Agreed the need to develop a charter / constitution for the subcommittee as soon as possible including the right to co-opt members of the community who have the necessary knowledge and experience to manage such a facility.

It was confirmed that the HMT were happy with the proposals. All present were also happy to accept the proposals and move forward for the benefit of the community.

8 Gwefan / *Website*

Atgoffwyd rheini oedd yn bresennol i gael golwg ar y wefan ac anfon eu sylwadau a chynnigion at y clerc cyn gynted a phosib.

Those presents were reminded to look at the website and send their observations and suggestions to the clerk as soon as possible.

9 Gohebiaeth / *Correspondence*

Dim / *None*

11 Unrhyw Fater Arall / *Any Other Business*

11.1 Cyflenwad Trydan / *Electricity Supply*

Yn dilyn yr anhawsterau gyda chyflenwad trydan, mae'n debyg bod is-orsaf newydd wedi ei ddatblygu erbyn hyn. Daw cynnig fodd bynnag gan peiriannydd Scottish Power Mr Floyd Boka i fynychu cyfarfod y Cyngor i drafod ymhellach petai angen. Cytuno ei wahodd i gyfarfod mis Mawrth.

Following the difficulties with the electricity supply, it is understood that a new substation is now in place. Mr Floyd Boka, Scottish Power's local engineer has however offered to attend a Council meeting to discuss further if necessary. Agreed to invite him to the March meeting.

11.2 Caffi Bach Traeth Mawr

Nodwyd ei bod yn braf gweld y caffi ar agor dros gwyliau'r ysgol a braf hefyd gweld ymwelwyr yn y pentref.

It was noted that it was nice to see the café open over the school half term and that it was also nice to see visitors in the village.

12 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / *Date of Next Meeting*

Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun Mawrth 20, 2017 am 7 o'r gloch.
The next meeting will be held on Monday evening March 20 2017 at 7pm.

Diolchwyd i bawb am eu presenoldeb ac i aelodau'r cyhoedd am wrando'n barchus. Bu'r cyfarfod orffen am 20.40

All were thanked for their attendance and members of the public were thanked for respectfully listening to proceedings. The meeting closed at 20.40.

CET02/2017

Arwyddwyd / Signed
Derek Owen,
Cadeirydd/Chair